



## Golygfa/View 2




# Newidiadau o'r Dyluniad Gwreiddiol

Mae dyluniad y Ffordd Fynediad Ogleddol yn wahanol i'r dyluniad a gymeradwywyd yn flaenorol, fel a ganlyn:

- **Pont dros Nant Llanmaes:** Roedd y dyluniad a gymeradwywyd yn 2009 yn cynnwys pont dros Nant Llanmaes. Nid yw'r bont hon yn cael ei chynnig mwyach. Yn hytrach, caiff cwlfert llai ei adeiladu a bydd y ffordd newydd yn gweithio fel amddiffynfa rhag llifogydd ac yn amddiffyn pentref Trebefered i lawr yr afon, yn ogystal â Llanmaes i fyny'r afon.
- **Aliniad Fertigol:** O ganlyniad i dynnu'r bont, bydd y ffordd arfaethedig yn is o lawer na'r gwreiddiol, ac yn dilyn proffil presennol y ddaear ar arglawdd bas. Yn y pen gorllewinol, bydd y ffordd yn mynd i drychfa i gysylltu â'r B4265 ar ei lefel bresennol.
- **Lled y ffordd:** Roedd rhaid i'r dyluniad blaenorol fod yn addas ar gyfer cerbydau annormal mawr yn gysylltiedig â'r Coleg Technegol Amddiffyn. Roedd yn ei gwneud yn ofynnol i ledu'r lonydd cerbydau, nad yw'n angenrheidiol mwyach.
- **Mynediad i'r Parc Busnes Awyrofod:** Daw'r Ffordd Fynediad Ogleddol i ben yn y pen dwyreiniol ar gyffordd newydd â goleuadau traffig ger yr uwch-awyrendy presennol. Bydd y gyffordd newydd yn darparu mynediad i'r Parc Busnes Awyrofod.

# Changes from the Original Design

The design of the Northern Access Road differs from the design previously approved as follows:

- **Bridge over Llanmaes Brook:** The design approved in 2009 included a bridge over Llanmaes Brook. This is no longer proposed. Instead, a smaller culvert will be constructed and the new road will act as a flood defence, protecting the downstream village of Boverton as well as Llanmaes upstream.
- **Vertical Alignment:** As a result of removing the bridge, the proposed road will be much lower than the original, now following the existing ground profile on a shallow embankment. At the western end the road will enter a cutting to connect with the B4265 at its current level.
- **Road width:** The previous design had to cater for large abnormal vehicles associated with the Defence Technical College. This required widened carriageways which are no longer necessary.
- **Access into the Aerospace Business Park:** The Northern Access Road will terminate at its eastern end at a new signalised junction near the existing super hanger. The new junction will provide gateway into the Aerospace Business Park.